

Canllawiau ar gyfer Cwblhau Cais a Ffurflen Aseu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Mae'r canllawiau yma wedi'u darparu er mwyn helpu ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen aseu. Mae'n cynghori'r ymgeisydd ar y gofynion o ran cwblhau pob cwestiwn yn ogystal â sut i bennu a chyfuno'r wybodaeth angenrheidiol i dystio'ch cais yn briodol.

- C1. *Rhowch enw'r person a/neu grŵp sy'n gwneud cais i gael ei ystyried ar gyfer cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Rhowch grynodedb am eich grwp/amdanoch chi mewn perthynas â'ch diddordeb yn y cynllun Llwybrau Diogel a pham rydych chi'n cyflwyno'r cais yma.*
- C2. *Mae'n bwysig penodi unigolyn neu 'Hyrwyddwr' addas a fydd yn brif bwynt cyswllt mewn perthynas â'ch cais Llwybrau Diogel a'ch cais am gyllid yn y dyfodol. Dylai'r unigolyn yma fod yn hygyrch, yn frwdfrydig am y cais a'i gynigion ac yn barod i gasglu a darparu gwybodaeth bellach yn cadarnhau'r cais pan fo Swyddogion y Cyngor yn gofyn amdani. Rhowch y manylion cyswllt rydyn ni wedi gofyn amdany'n nhw, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol fydd, yn eich barn chi, yn helpu wrth gysylltu â chi.*
- C3. *Rhowch enw a chrynodeb o'r ardal/cymuned mae'r cais yn ymwneud â hi.*
- C4. *Yn yr adran yma mae'n hanfodol eich bod chi'n rhestru a disgrifio lleoliad yr holl gyfleusterau cyhoeddus o fewn yr ardal ddaearyddol dan sylw. Rhaid rhoi rhestr fanwl o'r prif ganolfannau cyflogaeth (swyddfeydd, parciau diwydiannol), ysgolion, canolfannau siopa, swyddfeydd post, tafarnau, clybiau, gorsafoedd bysiau/trenau, canolfannau hamdden/cymuned, parciau, llwybrau cerdded a beicio canfyddedig, neuaddau, cartrefi i'r henoed, tai gwarchod, mannau chwarae, eglwysi, canolfannau oriau dydd, ysbytai, clinigau, meddygfeydd ac unrhyw gyfleusterau eraill mae rhaid i drigolion deithio iddyn nhw yn y gymuned. Mae'n bwysig rhestru'r holl gyfleusterau ac ardaloedd bydd trigolion yn teithio iddyn nhw ac yn ôl yn y gymuned, fel bod modd darparu dealltwriaeth o'r math o deithiau mae trigolion yn eu gwneud o-ddydd-i-ddydd.*

- C5. *Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n gwneud ymchwil/holiadur cyn cwblhau'r cwestiwn yma er mwyn pennu'r prif bryderon/problemau mae'r gymuned yn eu hwynebu, naill ai wrth deithio neu sy'n eu rhwystro rhag teithio (cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a diogelwch ar y ffordd). Mae'n bwysig rhestru ac esbonio'r problemau rydych chi'n eu pennu gan roi cymaint o fanyldeb â phosibl. Bydd gan Swyddogion ddealltwriaeth o'r problemau mae'r gymuned yn eu hwynebu ynghylch diogelwch ar y ffordd neu ddiffyg cyfle i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae amrywiaeth o broblemau, o ddiffyg cyfleusterau i gyfleusterau nad ydyn nhw'n addas i'w defnyddio oherwydd eu cyflwr. Cofiwch restru pob pryder/anhawster, does dim ots pa mor fach neu ddibwys ydyn nhw yn eich barn chi. Bydd yr holl welliannau yn cael eu hystyried, er na fydd pob un ohonyn nhw'n cael eu cymeradwyo.*
- C6. *I sicrhau bod y problemau wedi'u pennu a'u rhestru uchod yn cynrychioli croestoriad o'r gymuned yn hytrach na phroblemau rhai o'r gymuned yn unig, disgrifiwch sut cafodd y broses ymgynghori a chasglu gwybodaeth ei gwneud. Rhowch dystiolaeth ar ffurf holiaduron wedi'u cwblhau neu gofnodion cyfarfodydd/fforymau cymuned.*
- C7. *Wedi pennu'r problemau/pryderon mae'r gymuned yn eu hwynebu, mae'n bwysig hefyd eich bod chi'n nodi pa fesurau fyddai'n lliniaru'r materion yma, a/neu annog mwy o bobl yn y gymuned i gerdded/beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid gofyn am syniadau a safbwyntiau yn ystod y broses ymgynghori. Peidiwch â chyfyngu'r syniadau yma i welliannau amlwg. Cofiwch groesawu a chynnwys gwelliannau unigryw ac uchelgeisiol, yn enwedig os ydy nifer o'r gymuned wedi gofyn am yr un mesurau ac os y byddan nhw'n debygol o fod o fudd i bawb.*
- C8. *Mae gan nifer o gymunedau grwpiau sy'n gweithio tuag at ddarparu gwelliannau o wahanol fathau o fewn eu cymunedau. Os ydy'ch cymuned yn destun neu'n rhan o strategaeth, cynllun gwella neu unrhyw raglen arall, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â hyn. Mae modd i Swyddogion wirio'r cynigion presennol yn erbyn y cais yma i leihau'r risg o unrhyw wrthdaro neu waith aflwyddiannus yn cael ei wneud. Mae'n bosib bydd hyn yn arwain at weithio mewn partneriaeth yn y dyfodol a'r potensial i ehangu unrhyw Gynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, yn ogystal â phennu argaeledd arian cyfatebol.*
- C9. *Mae'n hanfodol bod y gwelliannau rydych chi wedi gofyn amdany'n nhw wedi cael eu pennu gan y gymuned gyfan ac y byddan nhw'n gwella*

diogelwch ar y ffordd ac annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

C10. *Os oes gyda chi wybodaeth ychwanegol hoffech chi'i chyflwyno yn cefnogi'ch cais, rhowch y manylion yn y bwllch yma. Fel arall, rhowch atodiadau (holiaduron ac ati).*